# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Ebrill 2018

Amser: 09.05 - 12.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4845

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Sayed AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Dr Alison Parken, Prifysgol Caerdydd<br>Rosalind Bragg, Maternity Action<br>Cerys Furlong, Chwarae Teg<br>Catherine Fookes<br>Emma Webster, Your Employment Settlement Service<br>James Moss, Slate Legal<br>Bethan Darwin, Thompson Darwin Law |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhianon Passmore AC a Jack Sargeant AC.

## 2 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dr Alison Parken, Aelod o Bwyllgor Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Rosalind Bragg, Cyfarwyddwr, Maternity Action

2.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddarparu:

- trosolwg o'r mesurau cyfreithiol i ddiogelu menywod rhag gwahaniaethu o ganlyniad i feichiogrwydd a mamolaeth.

2.3 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Maternity Action i ddarparu:

- enghreifftiau o arfer da o wledydd eraill lle y mae cyflogwyr yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol â gweithwyr yn ystod eu beichiogrwydd a'u cyfnod mamolaeth;
- atebion ysgrifenedig i gwestiynau nad oedd amser i'w gofyn yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys:

- a yw cyngor ar yrfaoedd wedi ei deilwra'n ddigonol i helpu menywod sy'n ymuno â’r byd gwaith neu'n dychwelyd iddo ar ôl cael plentyn;

- sut y gall rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru gefnogi mamau hunangyflogedig;

- unrhyw wybodaeth bellach ar y Cynllun Gweithredu Economaidd a'r Cynllun Cyflogadwyedd.

## 3 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg
- Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

## 4 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Emma Webster, Cyd Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Gyfreithiwr, Your Employment Settlement Service
- James Moss, Partner, Slate Legal
- Bethan Darwin, Partner, Thompson Darwin Law

## 5 Papurau i’w nodi

### 5.8 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

### 5.2 Llythyr at y Prif Weinidog mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru

5.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr at y Prif Weinidog mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru.

### 5.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Senedd yr Alban, mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru

5.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Senedd yr Alban, mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3 a 4

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3 a 4.

## 8 Trafod llythyr mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a chytunwyd arno.

## 9 Ymchwiliad i Feichiogrwydd, Mamolaeth a Gwaith yng Nghymru: Ymatebion i’r Ymgynghoriad